CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**03.03.22** ***(Cyfarfod mis Chwefror a ohirwyd)***

**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JAJ (Cadeirydd); DW; TAJ; RJ; IW; AR; DP; EO<br><br>**Ymddiheuriadau:** DM; JOJ; GW; BJ; DL<br><br>**Mynychu:** SWR ; Cyng Ken Hughes a Cyng. John Griffith<br><br>Trist oedd nodi dwy brofedigaeth ddiweddar yn y pentref sef Mrs Judith Pennington 8 Cae'r Delyn yn dilyn damwain angheuol ar ffordd Coedana.<br><br>Hefyd Mrs Menna Jones Lledwigan, gwraig Mr Geraint Jones a fu'n aelod o'r Cyngor hwn am flynyddoedd. Cytunwyd i'r Clerc anfon cerdyn cydymdeimlad at y ddau deulu.<br><br>Dymunwyd yn dda i'r Cyng. John Griffith ar ei ymddeoliad o waith y Cyngor Sir yn dilyn 9 mlynedd o wasanaeth diwyd. Diolchwyd iddo am ei gefnogaeth barhaol i waith y Cyngor Cymdeithas er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon i drigolion Llannerchymedd a'r cylch. Diolchodd JG i bawb am y croeso cynnes sydd pob amser yng nghyfarfodydd Cyngor Cymdeithas Llan. Nododd ei bod wedi bod yn braf cael cydweithio gyda chriw arbennig o weithgar a hwyliog |
| | **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**<br><br>**Adroddiad y Cadeirydd**<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad fel â ganlyn:-<br><br>Tachwedd 2019 – Mawrth 2022<br><br>• Aelodaeth y Cyngor – Eryl Williams yn ymddiswyddo – Donna Mlynarzick yn ei le. Dim swydd wâg ar hyn o bryd. Etholiadau 5.5.22<br><br>• COVID 19 – dim cyfarfodydd o Mawrth 2020 hyd at Fehefin 2020. Pob cyfarfod ers hyny ar ZOOM. Llawer o waith da gan wirfoddolwyr – 'nol prescriptiwn, prydau i'r bregus. Diolch i Bethan |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG**
Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Jukes am arwain ar y gwaith da hwn i drigolion Llan.<br>• Sul y Cofio – dau wasanaeth llwyddiannus yn ystod y cyfnod. Systemau technegol wedi helpu i bawb cael bod yn rhan. Diolch i bawb am eu cyfraniad.<br>• Unedau Tan y Foel – Tenant Uned 3 wedi derbyn Uned 2 hefyd bellach. Gwaith mynd yn ei flaen i edrych ar opsiynau i'r dyfodol. Gwaith torri coed a thwtio i'w gytuno.<br>• Clwb Peldroed – adnoddau wedi eu gwella e.e. stafelloedd newid. Problem gyda bil Dwr a Thrydan wedi eu datrys bellach.<br>• Clwb Bowlio – ardal yn cael ei ddefnyddio gan grwpiau o Benllech a Llanfair.<br><br>• Clwb Snwcer – Cyngor Sir yn cael cymorth Bargyfreithiwr i edrych ar y les wreiddiol (1979).<br>• Mynwentydd – Torri Carmel bellach yn rhan o gytundeb Cyngor Cymdeithas. Gwaith trwshio waliau yn y Fynwent Gyhoeddus. Gwaith creu, cynnal a chadw ar y llwybrau i ddechrau pan fydd y tywydd yn caniatau.<br>• Cynnal a Chadw cyffredinol<br>- cytundeb torri gwair wedi bod braidd yn helbulus tymor 2021 ond trefniadau i gryfhau'r amserlen gyda'r Contractwr ar gyfer 2022.<br>- Rhwydi Cae-amlbwrpas wedi eu trwshio.<br>- Cynnal a chadw Eglwys Ceidio<br>- Sicrhau bod golau strydoedd yn gweithio<br>- Adolygu safon Caeau Chwarae ac adnewyddu fel bo'r angen<br>- Sicrhau llinellau melyn<br>- Trefnu croesfan i helpu Llwybr Diogel i'r Ysgol yn dilyn colli dynes Lolipop<br>- Gosod bolier newydd mwy addas yn y Stesion<br>- Sicrhau arwyddion stryd dwyieithog drwy'r pentref<br>- Gosod drych gweledEdd yn Llwyn Drain ac ar dop Stryd y Bont<br><br>• Lein Amlwch – cafwyd trafodaeth gyda'r Grwp Gwirfoddolwyr a chytunwyd i gefnogi eu cais am storfa fechan yn y Stesion i gadw'r offer clirio'r lein. Gofynwyd am fwy o fanylder ynglyn a'u bwriadon i'r dyfodol. Dim i law hyd yma.<br>• Siop Craftilly – Carolyn wedi cael caniatad i weithio gyda Tilly |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Thomas i ddefnyddio'r stafell fechan i arddangos ei gwaith crefftau.<br>• Grwp LlanNi – parhau i gydweithio gyda'r Grwp i geisio sefylfu Hwb Gymunedol ar safle'r Cleb Bowlio.<br>• Cyllid – cyfrifon dwy flynedd wedi eu cymerdwyo gan yr Archwilwyr Allanol. Adolygwyd cyflog y Clerc yn 2021<br><br>• Materion o Bryder<br>- Goryrru ar Lon Carmel<br>- Nifer y Ffermydd Solar yn yr ardal<br>- Cyflwr cyffredinol y ffyrdd<br>- Oriau Glan Menai a'r gallu i gael mynediad at Ddoctor<br>- Sefyllfa parcio ym Maes Ceidio a ffordd Caergybi<br>- Parcio ar eiddo'r Cyngor Cymdeithas heb ganiatad<br>Diolchodd i Ifan a Robin am eu gwaith cynnal a chadw ac i bawb am fod yn amyneddgar gyda defnyddio ZOOM<br><br>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i JAJ barhau yn Gadeirydd hyd bydd yr Etholiadau Lleol wedi bod ac yna bydd DAW yn ymgyryd a'r gwaith yng nghyfarfod 12 Mai 2022. Bydd hefyd angen ethol Is-Gadeirydd yn y cyfarfod hwnnw.<br>Adroddodd y Clerc bod adroddiad terfynol yr Swyddfa Archwilio Cymru (gylchredwyd eisoes) ar gyfrfion 2020-21 i law ac nad oedd unrhyw faterion angen eu gweithredu. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn sicrhau cyfrifon o safon dderbyniol.<br>Cytunwyd i gynnal cyfarfod mis Mawrth (7.4.22) yn y Stesion gan ddilyn canllawiau'r Llywodraeth i'w gynnal mewn dull hybrid sef yn y Caffi a hefyd ar ZOOM i'r rhai sy'n dymuno parhau yn rithiol. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW diddordeb yn Eitem 5 Materion Cyllidol gna fod bil gan Wiliams Bros i law. . |
| **3** | **Cofnodion**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 27.1.22 fel rhai cywir - (DAW/DP)<br><br>**Materion yn Codi**<br><u>Ardal Tan y Foel</u> – cytunwyd i gynnal cyfarfod neilltuol i drafod dyfodol |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | yr ardal hon unwwith bydd yr holl wybodaeth berthnasol i law.<br><br>Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2022-27 – cydnabuwyd derbyn y Cynllun a nodwyd ei gynnwys. Ni gyflwynwyd unrhyw sylw neilltuol.<br><br>Arwyddion Croeso – cytunwyd i ofyn i RPO Williams osod 3 yn Llan – ger Manceinion; Ffordd Pencefn a Phendref. Cytunodd JOJ/DAW i edrych ar leoliadau posib i'r ddau arwydd yng Ngharmel.<br><br>Torri Coed – cylchredwyd prisiau gan Aber Trees Bethesda ar gyfer torri coed yn ardal y Stesion ac ardal Tan y Foel. Cytunwyd i 'rewi' gwaith ardal Tan y Foel. Bu trafodaeth am y pris a chytunodd DP i geisio pris amgen gan gontractwr arall. Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau gwasanaeth cwmni proffesiynol sydd a thrwydded addas ar gyfer gofynion iechyd a diogelwch.<br><br>Cytunwyd i'r amcan bris amgen fod yn llaw y Clerc erbyn 18.3.22 ac os na fydd yna bwrw 'mlaen gyda'r pris sydd i law, sef, £2700 gan fod amser tocio yn brin.<br><br>Cais Cynllunio Ty'n Ffynnon – Clerc i geisio diweddariad am y cais cynllunio hwn a'r elfen parcio sydd ynddo.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun gweithredu i greu fersiwn 03.03.22 |
| **4** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**EO –** cyfeiriodd at y broblem barhaus o barcio ar linellau melyn ger Maes Ceidio. Cytunodd JG i holi Cyngor Sir os oes modd cael ymweliad gan y Warden Traffic tu allan i oriau gwaith arferol – hynny yw yn y gyda'r nos. Nododd y Clerc ei bod wedi adrodd am y parcio i'r PCSO sawl gwaith.<br><br>**DP** – cyfeiriodd at y ddamwain angeuol yng Ngoedana yn ddiweddar. Nododd JG ei fod wedi mynegi pryderon am y tro yn y ffordd i'r Adran Priffyrdd a bod ymchwiliad swyddogol i'r ddamwain yn mynd rhagddo.<br><br>**RJ** – cytunwyd i RJ fwrw mlaen a chlirio rithoedd Cae Gofeb a'u rhoi yn y biniau priodol.<br><br>**KH –** cyfeiriodd at y trefniadau i gynnal cyfarfodydd hybrid gan nodi bod y Clerc yn dilyn y canllawiau nodir gan Llywodraeth Cymru.<br><br>**AR** – nododd bod nifer o fagiau bin melyn a du (clytiau babi) yn cael eu gadael ger ochr y ffordd (Bwcla/Britania) Cytunodd y Clerc i wirio beth yw'r trefniadau casglu gyda'r Adran Wastraff.<br><br>**JG** – dymunodd ddiolch i'r Clerc am drefnu bod holl adroddiadau y Cyngor Sir yn cael eu rhannu'n briodol gydag aelodau C C Llan. Mae hyn yn fodd o gadw pawb yn gyfredol ac nid yw'n digwydd mewn Cynghorau Tref a Chymuned yr Ynys i gyd.<br><br>Cyfeirodd hefyd at drefniadau sydd gan y Cyngor Sir mewn llaw i hel arian a nwyddau i'r Wcrain. Mae holl fanylion mannau casglu a ffyrdd o |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | gyflwyno arian ar wefan y Cyngor Sir.<br><br>**TAJ –** cyfeiriodd at y torri gwrychyn sy'n digwydd yma ac acw drwy'r ardal. Nid oes arwyddion addas na gwaredu safonol mewn rhai llefydd. Cytunodd yr Aelodau Lleol i holi'r Cyngor Sir beth yw'r gofynion cywir.<br><br>Holodd os oedd modd cael hysbys i werthiant Llun Marged Ann ar wefan Lluniau Llan. TAJ/DAW i weithredu<br><br>**IW –** nododd bod ymgyrch mewn llaw i godi arian i'r papur bro Yr Arwydd. Dywedodd y Clerc bydd nifer o geisiadau tebyg yn dod gerbron cyfarfod mis MAwrth (7.4.22)<br><br>**JAJ –** cyfeiriodd ar y Bws 63 sy'n teithio gyda'r nos o Fangor i Amlwch a'i fod wedi ei atal yn llwyr heb unrhyw ymgynghoriad. Cytunodd JG i holi'r Adran Priffyrdd.<br><br>Cyflwynodd y syniad o gael Swper yn y Stesion gan nad ydym wedi cael Cinio Dolig ers Covid. Cytunwyd y byddai yn syniad da ac i'r Clerc wneud ymholiadau erbyn cyfarfod nesaf.<br><br>Adroddodd bod y Clerc wedi gorfod prynu argraffydd newydd a chytunwyd i'r Cyngor dalu iddi amdano -£60. Cytunwyd i gais ffurfiol gan y Clerc i gael yr hawl cyntaf i brynu'r cyfarfpar mae'r Cyngor wedi brynu i hwyluso'r gwaith pan fydd y Clerc yn ymddeol. Cytunwyd yn unfrydol.<br><br>**DAW** – nododd fod GW wedi edrych ar y rheiliau ger Capel Jerisalem ac yn awgrymu eu newid er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch. Cytunwyd yn unfrydol. |
| **5** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Ionawr** **£**<br>Wybone – talu am archeb bagiau dal baw ci 122.38<br>NBB Furniture – meinciau a byrddau i Glan Menai 2082.00<br>1764.00<br>HMRC – taliad gyflog Clerc – chwater olaf 21-22 157.80<br>Scottish Power – Golau Dolig 69.33<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Williams Bros – trwshio cyfarpar Cae Gofeb;<br>Gosod meinciau Glan Menai; trwshio llechen Eglwys<br>Ceidio 360.20<br>Scottish Power 83.51 |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Wyn Evans – gwaith 'jet-wash ' yn ardal Glan Menai 680.00 |
| **6.** | **Materion Cynllunio**<br>Dim i law |
| **7** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Cais y dorri coed yn Nhy Croes –** cylchredwyd cais gan Ystad Bodorgan i dorri coed yn Nhy Croes. Cytunwyd yn unfrydol i gyflwyno dim gwrthwynebiad.<br><br>**Ffioedd y Fynwent Gyhoeddus –** yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol i gadw'r ffioedd fel ag y maent.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 pm* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383